**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021

---

**PWNC**

Eitem 5:CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2021/22

---

**PENDERFYNIAD**

1. Cymeradwyo Cyllideb Refeniw 2021/22 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1 i’r adroddiad. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiadau unwaith ac am byth o £415,000 yn y gyllideb refeniw i'w hariannu o'r gronfa wrth gefn a glustnodir.
2. Cymeradwyo Cyllideb Gyfalaf 2021/22 hyd 2025/26 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.
3. Cyllido'r Adolygiadau Porth (Sicrwydd) ar gyfer y prosiectau sydd dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais ac Arianwyr y Prosiectau.
4. Gofyn yn ffurfiol i bob un o'r chwe awdurdod lleol gydweithredu wrth ddefnyddio eu hyblygrwydd ariannu i ryddhau cyllid refeniw i'r Bwrdd Uchelgais. Golyga hyn gyfnewid y cyllid sydd wedi'i ddynodi i'r Cynllun Twf yn erbyn prosiectau cyfalaf eraill o fewn eu rhaglenni cyfalaf a sicrhau bod cyllid refeniw o werth cyfartal ar gael i'r Cynllun Twf i ariannu eu heitemau math refeniw.
5. Gofyn i'r Swyddfa Rheoli Portffolio adolygu costau'r prosiectau yn ystod y flwyddyn wrth i ragor o wybodaeth ddod i law, ymhellach i'r costau nas ragwelwyd sydd bellach wedi'u hadnabod yn y gyllideb refeniw. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried yr opsiwn o ariannu rhan o'r gwariant hwn o gyllideb gyfalaf y prosiect unigol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

1. Gosod y gyllideb arfaethedig yn ôl pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.
2. Gosod y gyllideb arfaethedig fesul prosiect a'r ariannu cyfalaf cyfatebol ar gyfer 2021/22 hyd 2025/26.
3. Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.
4. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i wario arian yn unol â'r gyllideb gymeradwy.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

1. Cyflwynwyd Atodiadau 1 a 2 a'r wybodaeth o fewn yr adroddiad i'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio) ar 12 Mawrth 2021.
2. Rhannwyd fersiwn drafft o'r adroddiad gyda swyddogion cyllid statudol y chwe awdurdod lleol gyda'r bwriad o gael cytundeb ar gyfnewid y cyllid cyfalaf/refeniw.
3. Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Penderfyniad:** | Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021 |

---

**PWNC**

Eitem 6:DATGANIAD SEFYLLFA AR NEWID HINSAWDD AC ECOLEGOL

---

**PENDERFYNIAD**

1. Mabwysiadu'r datganiad sefyllfa arfaethedig yn adran 5.1 o'r adroddiad ar sut y bydd prosiectau'r Cynllun Twf yn cyflawni yn erbyn dyheadau rhanbarthol a dyheadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar newid hinsawdd ac ecolegol, gyda'r addasiadau a ganlyn:-
   - Diwygio'r ail bwynt bwled i ddarllen "*cyflawni o leiaf 40% yn llai o garbon corfforedig*".
   - Diwygio'r trydydd pwynt bwled i ddarllen "*cyflawni o leiaf 10% o fudd net ar gyfer bioamrywiaeth*".
   - Dileu'r frawddeg ddiwethaf, sef "*Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gydag arianwyr prosiectau i gyflawni'r datrysiad fforddiadwy gorau ar gyfer pob prosiect*".
2. Nodi y bydd gofyn i holl brosiectau'r Cynllun Twf amlinellu i ba raddau y byddant yn cyflawni yn erbyn y datganiad sefyllfa ac unrhyw fesurau lliniaru perthnasol fel rhan o broses gymeradwyo'r achos busnes.
3. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio bennu'r modd gweithredu a mesur priodol ar draws y portffolio a nodi y bydd angen comisiynu arbenigedd allanol i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Heb ddatganiad sefyllfa clir gan y Bwrdd ar newid hinsawdd ac ecolegol, gellid colli cyfleoedd i siapio achosion busnes y prosiectau. Gallai hyn arwain yn anfwriadol at brosiectau'r Cynllun Twf yn cynyddu allyriadau carbon rhanbarthol a cholli bioamrywiaeth.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

1. Trafodwyd y papur a'r datganiad sefyllfa arfaethedig yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio) ar 12 Chwefror a 12 Mawrth, 2021.
2. Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Penderfyniad:** | Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021 |

**PWNC**

Eitem 7:STRATEGAETH YNNI GOGLEDD CYMRU DDRAFFT

**PENDERFYNIAD**

1. Cadarnhau Strategaeth Ynni Gogledd Cymru ar ffurf drafft, a chadarnhau cefnogaeth y Bwrdd i ddechrau ar y gwaith paratoadol ar gyfer y cynllun gweithredu.
2. Cytuno i dderbyn adroddiad pellach ar y cynllun gweithredu drafft.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r strategaeth bresennol yn darparu gweledigaeth lefel-uchel, meysydd blaenoriaeth, gwaith modelu ynni ynghyd â dadansoddiad economaidd fydd yn cyfrannu at ddatblygiad y cynllun gweithredu arfaethedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

1. Mae'r Bwrdd Rhaglen Ynni Carbon Isel, Grŵp Gweithredol a Fforwm Prif Weithredwyr Rhanbarthol wedi cefnogi y strategaeth cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais. Mae ystod o grwpiau o ran ddeiliaid ac sefydliadau wedi ymgysylltu yn ystod datblygiad y strategaeth.
2. Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021

---

**PWNC**

Eitem 8:EGWYDDORION MASNACHOL AR GYFER CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

---

**PENDERFYNIAD**

1. Cytuno ar yr Egwyddorion Masnachol fel y nodir yn adran 5 yr adroddiad.
2. Nodi y bydd y sail resymegol ar gyfer mabwysiadu safbwynt masnachol penodol wedi'i nodi'n glir law yn llaw ag achosion busnes y prosiectau er mwyn i'r Bwrdd eu hystyried.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Darparu llwyfan negodi clir ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

1. Trafodwyd yr Egwyddorion Masnachol yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio) ac fe'u cadarnhawyd ar 12 Mawrth, 2021.
2. Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

---

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021

---

**PWNC**

Eitem 9:CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - EGWYDDORION CAFFAEL

---

**PENDERFYNIAD**

1. Mabwysiadu'r egwyddorion caffael arfaethedig ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.
2. Nodi y bydd gofyn i arianwyr y prosiectau ddangos sut y byddant yn cyflawni yn erbyn yr egwyddorion hyn fel rhan o achos busnes y prosiectau.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Darparu fframwaith clir i brosiectau gyflawni yn erbyn dyheadau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

1. Trafodwyd a chytunwyd ar yr egwyddorion caffael yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio) ar 12 Mawrth, 2021.
2. Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

---